

29 October 2020

Annwyl,

ATISN 14411 – Sefydlu un neu fwy o Amgueddfeydd Milwrol

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 11 Hydref 2020. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Llywodraeth Cymru i ryddhau'r holl wybodaeth a gedwir am sefydlu Amgueddfeydd Milwrol yng Nghymru.

Yn dilyn fy asesiad cychwynnol, rwy'n amcangyfrif y byddai'n costio mwy na'r terfyn addas a nodwyd yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ateb eich cais. Y terfyn addas a bennwyd ar gyfer y llywodraeth ganolog yw £600. Dyma amcangyfrif o'r hyn y byddai'n ei gostio os yw'n debygol o gymryd mwy na 24 awr i bennu a oes gennym yr wybodaeth, dod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw a thynnu'r rhannau perthnasol ohoni.

Er mwyn darparu'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, byddai'n rhaid:

- Archwilio ein holl ffeiliau o ohebiaeth electronig a phapur ar draws o leiaf ddwy is-adran;
- Adolygu pob darn o ohebiaeth er mwyn gweld a yw'n ymwneud â mater sefydlu amgueddfa filwrol

Rwyf wedi cynnal chwiliad o fewn ein system electronig ar gyfer rheoli dogfennau, sef lle y mae'r rhan fwyaf o'n cofnodion manwl yn cael eu cadw, gan ddefnyddio'r term chwilio "military museum" (yn Saesneg yn unig). Cafodd 1748 o ddogfennau eu canfod. Byddai angen agor pob un o'r rhain yn unigol a'u darllen er mwyn gweld a yw o fewn cwmpas y cais hwn. Yn ystod ein hymarfer samplu gwnaeth gymryd dros funud i agor y ddogfen a darllen digon o'r deunydd er mwyn gweld a yw o fewn cwmpas y cais.

Golyga hyn y byddai'n cymryd dros 29 awr i agor a darllen yr holl ddogfennau hyn. Mae'r amser yma'n mynd y tu hwnt i'r trothwy priodol.

Noder hefyd y byddai angen i archwiliad cyflawn groesgyfeirio at dermau chwilio eraill fel "amgueddfa filwrol", ffurfiau lluosog a themau chwilio eraill cysylltiedig. Byddai angen i ni hefyd chwilio drwy gofnodion papur a chofnodion electronig eraill.

Felly, rwyf wedi penderfynu peidio â darparu'r wybodaeth i chi.

Gallwch fireinio eich cais drwy ddatgan yn fwy penodol pa wybodaeth yr hoffech ei chael, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau neu gyfnod amser sy'n berthnasol i'r wybodaeth. Os ydych yn dewis mireinio eich cais fel hyn, bydd yn cael eu drin fel cais newydd.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb

hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir